“Fe lefarodd lawer wrthynt ar ddamhegion, gan ddweud: ‘Aeth heuwr allan i hau.”
(Mathew 13:3)

Dyma un o ddamhegion mwyaf adnabyddus yr Arglwydd Iesu. Mae’n ddameg syml o ran deall y darlun, ond mae’n cyfleu gwirionedd dwfn a phwysig. Mae’r effaith gaiff Gair Duw arnom yn dibynnu ar gyflwr ein calon.

Yr heuwr a’i had

Pwy yw’r heuwr yn y ddameg? Mae’n siŵr o gyfeirio’n gyntaf at Iesu ei hun. Ef yn anad neb sydd wedi dod â Gair Duw inni. Yn wir Ef yw’r Gair a wnaethpwyd yn gnawd ac a ddaeth i drigo yn ein plith. Dyma ddarlun nodweddiadol o ostyngedig o Fab y Dyn. Gallai ei ddisgrifio’i hun fel Brenin bob tro, ond o bryd i’w gilydd mae’n dewis person gweddol gyffredin fel yr heuwr. Mae hyn yn esiampl bwysig i ni, i fod yn barod i’n hadnabod ein hunain fel gweision gostyngedig, yn hytrach na chael breuddwydion rhy fawreddog am ein hunain. Hefyd, mae’n ddarlun o unrhyw un sydd yn rhannu Gair Duw â rhywun arall.

Yr had yw ‘gair y deyrnas’. Dyma’r neges: fod lle yn nheyrnas Dduw i bawb ohonom; bod Crist wedi dod i’r byd i ddod â’r deyrnas yn agos, o fewn ein cyrraedd. Gallwn ni brofi bywyd Duw yn ein bywydau ni, gallwn brofi cymdeithas agos â Duw trwy Iesu Grist. Daeth i sicrhau maddeuant trwy ei waith fel Gwaredwr, fel Oen Duw. Dangosodd ei arwyddion gwyrthiol fod nerth Duw ar waith er iachawdwriaeth dyn. Beth bynnag fo ymateb pobl iddo, does dim o’i le ar had y Gair. Mae hynny’n wirionedd pwysig i’w gofio heddiw rhag i ni golli hyder yn ein Hefengyl ogoneddus.

Pwrpas y diafol

Mae’r ddameg yma’n dangos yn glir beth yw nod Satan.

Caledu calonnau

Mae’n hapus i galonnau pobl fod yn galed i’r Efengyl. Mae’n hapus i bobl anwybyddu Gair Duw a’i gyfrif yn amherthnasol, yn ddiflas, yn gelwydd, neu’n stori tylwyth teg. Mae hyn yn help i ni sylweddoli pwy sydd ar waith pan mae pobl yn dweud hyn wrthym.

Twyllo calonnau

Nodwedd arall o waith yr Un drwg yw rhwystro’r Efengyl rhag cael dyfnder daear yn ein calonnau. Pan mae pobl yn ymateb yn frwd i’r Gair ac yn ei dderbyn i bob golwg, mae’n awyddus i sicrhau na chaiff wir ddylanwad ac na

fydd gwaith dwfn yn digwydd yn yr enaid. Mae'n hapus os na fydd bywyd person yn newid mewn gwirionedd. Mae'n ddigon hapus gyda chytundeb y pen, dim ond iddo beidio ag effeithio'r galon.

Drysu'r galon

Mae'r trydydd math o berson eto'n dangos diddordeb gwirioneddol yn nheyrnas Dduw ac yng Nghrist. Tacteg hoff gan Satan yw gorlenwi calon yr unigolyn gyda phob math o faterion sy'n ymddangos fel problemau mawr, a chyda blaenoriaethau mawr i feddiannu'r galon. Beth am ei fusnes; beth am ei statws ariannol; a fydd raid gollwng y pleserau mae wedi eu mwynhau gymaint cyhyd? O ganlyniad, mae'r Efengyl a'r deyrnas yn cael ei gwthio i'r naill ochr.

Pwrpas yr heuwr

Pwrpas Duw yn yr Efengyl yw rhoi bywyd helaeth i bechadur. Bydd y bywyd yma'n peri tyfiant yn ei gymeriad ac yn ei enaid trwy iddo gyffesu ei bechod, edifarhau a throi mewn ffydd at Iesu Grist. Wrth fod mewn perthynas agos â'r Wir Winwydden, bydd yn sugno maeth i'w galon ac yn ffrwytho. O ganlyniad, daw ei fywyd yn fywyd ffrwythlon ar y ddaear. Bydd yn cynhyrchu ffrwythau tebyg i'r rhai a restrir yn Galatiaid 5.22: **"Ond ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth."**

"Gwna ni'n iraidd fel y glaswellt ,
o dan faethlon wlith y nen;
gwna ni'n ffrwythlon fel y gwinwydd,
prydferth fel y lili wen,
er gogoniant byth i'th enw annwyl di. *(Myfyr Emlyn)*

Yr allwedd

Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant yr had yw cyflwr y pridd. Lle mae'r pridd yn galed, yn garegog neu'n gymysg â chwyn, dyw'r tyfiant ddim yn effeithiol. Lle mae'r pridd yn ddwfn ac yn glir, mae'r had yn gafael ac yn dwyn ffrwyth. Mae'n amlwg fod Iesu yn bwriadu i'r pridd gyfeirio at gyflwr ein calonnau. Os yw'r galon yn agored i'r Efengyl, mae cyfle i'r Gair wneud ei waith. Os yw'n calon yn rhoi lle i'r Efengyl wreiddio, bydd yn siŵr o dyfu a blodeuo'n dda. Os yw'n calon yn rhoi blaenoriaeth i Dduw ac i'w deyrnas, byddwn yn medi ffrwyth lluosog yn ein bywydau.

Diolch am ddameg sydd yn dangos awydd Duw i fywhau ein bywydau a'u gwneud yn ffrwythlon. Boed i ni wylio'n calonnau a gweddïo ar yr Arglwydd i doddi calonnau eraill i dderbyn Efengyl ei ras.